

COMBI

Communication competences for migrants
and disadvantaged background learners in bilingual work environments

Adroddiad ar Fewnfudwyr a Rôl yr Iaith Leiafrifol ym Maes Gofal Iechyd a Chymdeithasol: Dadansoddiad Damcaniaethol ac Ymarferol

Trosolwg



combiproject.eu



Co-funded by the
Erasmus+ Programme
of the European Union

Cyflwyniad

Mae prosiect COMBI, a ariennir gan raglen Erasmus+ y Comisiwn Ewropeaidd, wedi dod ag academyddion ac ymarferwyr ym maes ieithoedd lleiafrifol a mewnfudo at ei gilydd. Mae'r prosiect yn ymchwilio i'r graddau y gall mewnfudwyr gael gafael ar adnoddau dysgu iaith yn iaith leiafrifol yn ogystal â iaith fwyafrifol y cymunedau croeso. Mae'r prosiect yn ystyried a yw'r dulliau a'r adnoddau dysgu iaith presennol yn effeithio ar allu mewnfudwyr i weithredu yn eu cymdeithas newydd. Ar gyfer hyn, mae'r prosiect yn ystyried mynediad mewnfudwyr i'r farchnad waith a'r gofynion o fewn maes gwaith penodol, sef maes gofal iechyd a chymdeithasol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol mewn hinsawdd lle mae galw cynyddol am allu yn ieithoedd y cymunedau croeso er mwyn cael swydd a dyrchafiad.

Ymhlith y cwestiynau sy'n llywio'r gwaith ymchwil hwn mae'r canlynol: Pa sgiliau iaith leiafrifol hunangofnodedig sydd gan mewnfudwyr cenhedlaeth gyntaf? Pa ffactorau sy'n pennu agweddau mewnfudwyr cenhedlaeth gyntaf at yr iaith leiafrifol? I ba raddau y mae polisi yn effeithio ar agweddau mewnfudwyr cenhedlaeth gyntaf at yr iaith leiafrifol? A all defnyddio'r iaith leiafrifol helpu mewnfudwyr i berfformio'n well yn y farchnad lafur?

Ymfudo a Pholisi

Mae mewnfudo wedi neidio i ganol materion gwleidyddol, cymdeithasol ac economaidd Ewrop. Ymfudodd 4.7 miliwn o bobl i un o'r 28 o Aelod-wladwriaethau Ewrop yn 2015 ac, o ganlyniad, mae cymunedau iaith yn wynebu heriau parhaus sy'n ymwneud â sut i integreiddio mewnfudwyr, gan gynnwys darparu hyfforddiant ieithyddol digonol ar gyfer y farchnad lafur (Eurostat 2017).

Mae integreiddio mewnfudwyr yn ieithyddol wedi bod yn destun pryder mawr i'r Undeb Ewropeaidd. Serch hynny, mae cynlluniau i integreiddio mewnfudwyr mewn gwladwriaethau Ewropeaidd unigol wedi cael eu rhoi ar waith ar sail ad hoc (Spotti et al 2009). Mae gofynion ieithyddol i gael statws preswyllo a dinasyddiaeth yn amrywio ar draws gwladwriaethau Ewrop ond mae pob un yn cynnig llwybrau gorfodol neu ddewisol i ddysgu iaith genedlaethol y wladwriaeth. Er bod trafodaeth yn mynd rhagddi ynghylch sut y dylid integreiddio mewnfudwyr a sicrhau cydlyniant, mae

ymwybyddiaeth gynyddol bod sgiliau iaith yn offerynnau allweddol yn y broses integreiddio. Mewn rhanbarthau dwyieithog Ewrop, er mwyn meithrin y sgiliau iaith sydd eu hangen er mwyn bod yn llwyddiannus yn y farchnad lafur, mae'n bosibl y bydd yn rhaid i fewnfudwyr ddysgu dwy iaith yn lle un. Er gwaethaf hynodion cyd-destun pob iaith, mae'r tebygrwydd rhwng cyd-destunau ieithoedd Ewropeaidd a rhyngwladol yn cael ei gymharu fwyfwy er mwyn nodi arfer gorau a strategaethau newydd ar gyfer polisi iaith a hyrwyddo ieithoedd.

Iaith ym maes Gofal Iechyd a Chymdeithasol

Mae iaith wrth wraidd gofal iechyd proffesiynol: “without language, the work of a physician and that of a veterinarian would be nearly identical” (Clark, 1983). Er gwaethaf ideolegau unieithog hollbresennol, mae mwy a mwy o waith ymchwil yn dangos bod angen gweithwyr gofal iechyd dwyieithog. Mae Wagoner (2017) yn nodi dau brif reswm: (1) y ffaith na all cleifion fynegi eu hunain a deall eraill cystal yn eu hail iaith ag y byddent yn gallu ei wneud yn eu hiaith gyntaf; a (2) rhoi rhywfaint o gysur i gleifion yn ystod cyfnod anodd a/neu pan fyddant yn fregus. At hynny, mae llawer o arbenigwyr yn y maes yn honni nad yw cyfieithwyr yn diwallu anghenion cleifion nac yn cyfateb i weithwyr gofal iechyd dwyieithog. Mae Cioffi (2003) yn awgrymu mai'r ateb gorau yw osgoi'r 'dyn canol' am fod ymarferwyr iechyd yn gallu rhoi lefel uwch o ofal a meddu ar lefel uwch o awdurdod a sgil a/neu ennyn mwy o ymddiriedaeth ymhlith cleifion. Mae Wagoner (2017) yn awgrymu mai'r ffordd o fynd i'r afael â hyn yw drwy wella galluoedd ieithyddol gweithwyr gofal iechyd a chymdeithasol er mwyn i gleifion allu gael eu trin yn eu dewis iaith. Felly, byddai angen mwy o gymorth ar fewnfudwyr sy'n chwilio am waith yn y sector gofal iechyd a chymdeithasol neu sy'n gweithio yn y sector hwnnw ar hyn o bryd i ddysgu nid un ond dwy iaith y gymuned groeso er mwyn diwallu anghenion cleifion a chleientiaid.



Partneriaid COMBI

Mae prosiect COMBI yn dod â gwahanol ranbarthau Ewropeaidd at ei gilydd, y gellir dosbarthu pob un ohonynt yn 'gymunedau croeso dwyieithog' ac yn ardaloedd lle mae gofyn i weithwyr gofal iechyd a chymdeithasol fod â gwybodaeth ddigonol o ddwy iaith y gymuned groeso. Mae'r ardaloedd hyn yn cynnwys Cymru lle y ceir y Gymraeg a'r Saesneg, Gwlad y Basg gyda Basgeg a Sbaeneg, y Ffindir gyda Swedeg a Ffinneg, Sisili gyda Sisileg ac Eidaleg yn ogystal â Fryslân gyda Ffriseg ac Iseldireg. Mae'r map yn dangos pob ardal a'r partneriaid cyfatebol sy'n cymryd rhan ym mhrosiect COMBI yn ogystal â'r ieithoedd lleiafrifol a siaredir yn yr ardaloedd hynny.

Cymru (Y DU)

Poblogaeth: 3 miliwn

leithoedd swyddogol: Cymraeg a Saesneg

Nifer y siaradwyr Cymraeg: Gall 19% (562,000) o gyfanswm poblogaeth Cymru siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg

Y DU:: Mae 13% o'r boblogaeth yn fewnfudwyr (2015)

Cymru: Mae 6% o'r boblogaeth yn fewnfudwyr (3% yn 2000) (Arsyllfa Ymfudo'r DU 2016)

Cymuned Ymreolaethol Gwlad y Basg (Sbaen)

Poblogaeth: 2.19 miliwn

leithoedd swyddogol: Basgeg, Sbaeneg

Nifer y siaradwyr Basgeg: 33.9%

Y boblogaeth o fewnfudwyr (Sbaen): 10% (2015)

Y boblogaeth o fewnfudwyr (Cymuned Ymreolaethol Gwlad y Basg): 6% 2015 (1% yn 2000) (Ikuspegi 2015)

Y Ffindir

Poblogaeth: 5.5 miliwn

leithoedd swyddogol: Ffinneg (88.67%), Swedeg (5.29%), leithoedd rhanbarthol cydnabyddedig: Sami (0.04%)

Nifer y siaradwyr Swedeg: Mae 5.5% o gyfanswm poblogaeth y Ffindir yn siarad Swedeg fel mamiaith 290 760 (Suomen virallinen tilasto (SVT): Väestön ennakkotilasto [verkkojulkaisu]).

Y boblogaeth o fewnfudwyr (y Ffindir): 339 925 (7%)

Sisili (yr Eidal)

Poblogaeth: 5 miliwn

Ieithoedd swyddogol: Eidaleg

Nifer y siaradwyr Eidaleg: 5 miliwn, gyda thafodieithoedd gwahanol a gwahaniaethau rhwng acenion yn naw talaith Sisili

Y boblogaeth o fewnfudwyr (yr Eidal): 5.026.153 yn 2016 (9.5% o boblogaeth yr Eidal)

Y boblogaeth o fewnfudwyr (Sisili): 174.116 yn 2015 (3.5% o boblogaeth Sisili)

Fryslân (Yr Iseldiroedd)

Ieithoedd swyddogol: Ffriseg, Iseldireg

Poblogaeth (Fryslân): 645.456 (Fries Sociaal Planbureau, 2016)

Canran y siaradwyr Ffriseg: 66.8% (Provinsje Fryslân, 2015)

Y boblogaeth o fewnfudwyr cenhedlaeth gyntaf (Yr Iseldiroedd) 1.920.877 (Fries Sociaal Planbureau, 2016)

Y boblogaeth o fewnfudwyr cenhedlaeth gyntaf (Fryslân): 28.069 (Fries Sociaal Planbureau, 2016)

Mae'n bwysig nodi bod cyd-destun pob partner yn wahanol o ran ei hanes a'i gefndir economaidd-gymdeithasol yn ogystal â statws ieithyddol presennol ei iaith leiafrifol. Golyga hyn fod gan bob cyd-destun wahanol arferion sy'n ymwneud ag integreiddio mewnfudwyr yn ieithyddol. Dengys y tabl isod y pethau sy'n gyffredin rhwng polisi ac arfer yng nghyd-destun pob partner a'r gwahaniaethau rhyngddynt:

laith	# y siaradwyr	% y boblogaeth ranbarthol	Polisi iaith ranbarthol wedi'i anelu at fewnfudwyr	Cyrsiau iaith yn y ddwy iaith wedi'u hanelu at fewnfudwyr	Polisi iaith ranbarthol ym maes gofal iechyd	Hyfforddiant ieithyddol i weithwyr ym maes gofal iechyd
Sisileg (dim statws swyddogol)	5,082,000	98%	X	X	X Dim cymorth penodol i fewnfudwyr	X Mentrau lleol er mwyn helpu i integreiddio mewnfudwyr, ond dim ffocws ar Sisileg
Ffriseg	431,200	67%	X	X	X Dim cymorth penodol i fewnfudwyr	✓ Ar gael: Deunyddiau yn yr iaith Ffriseg wedi'u hanelu at weithwyr gofal iechyd, a chwrs Ffriseg dewisol i fyfyrwyr gofal iechyd
Basgeg	742,410	34%	✓ Trefnir darpariaeth ar lefel ranbarthol/trefol	✓ AISA (UE) 20%, EPA (Sbaen) 90%	X Dim cymorth penodol i fewnfudwyr	✓ Cyrsiau penodol gan ddarparwyr gwahanol, cymorth economaidd gan lywodraeth leol
Cymraeg	562,000	19%	X	X	X Dim cymorth penodol i fewnfudwyr	✓ Mentrau hyfforddi lleol o ganlyniad i strategaeth iaith 'Mwy na Geiriau'
Swedeg (trefnir darpariaethau dwyieithog ar lefel y fwrdeistref)	290,760	6%	✓	✓	✓ Mae cymorth penodol i fewnfudwyr ar gael	✓/X O ran polisi mae llwybrau ar gael er mai prin y caiff ei roi ar waith



Arolygon

Nod yr arolygon oedd cael gwybod am brofiadau'r ymatebwyr a'u hagweddau at y defnydd o'r iaith lleiafrifol yn y gweithleoedd gofal iechyd a chymdeithasol. Cynhaliwyd yr arolygon yng nghyd-destunau pob un o'r pum partner gan dargedu pedwar grŵp a oedd yn cynnwys y canlynol:

1. mewnfudwyr cenhedlaeth gyntaf sy'n gweithio ym maes gofal iechyd a chymdeithasol
2. mewnfudwyr cenhedlaeth gyntaf a oedd am weithio ym maes gofal iechyd a chymdeithasol ond nad oeddent yn gwneud hynny ar adeg yr arolwg
3. Rheolwyr a swyddogion polisi ym maes gofal iechyd a chymdeithasol
4. Athrawon a darparwyr galwedigaethol ieithoedd lleiafrifol


Cymerodd cyfanswm o 216 o unigolion ran yn yr astudiaeth, a oedd yn cynnwys 61 o fewnfudwyr a oedd yn gweithio ym maes gofal iechyd a chymdeithasol, 38 o fewnfudwyr a oedd am weithio ym maes gofal iechyd a chymdeithasol, 43 o reolwyr a swyddogion ym maes gofal a chymdeithasol a 74 o athrawon neu hyfforddwyr galwedigaethol ieithoedd lleiafrifol.

Canlyniadau


Mewnfudwyr

Ym mhob cyd-destun, nodwyd gwahaniaethau amlwg o ran sgiliau mewnfudwyr yn iaith fwyafrifol genedlaethol ac iaith leiafrifol pob cyd-destun, fel y gwelir isod.


Sgiliau yn yr Iaith Fwyafrifol (Siarad a Darllen)




Sgiliau yn yr Iaith Leiafrifol (Siarad a Darllen)



At hynny, nodwyd gwahaniaethau ym mhob cyd-destun mewn perthynas ag agweddau mewnfudwyr at yr iaith leiafrifol. Nid yw'n syndod bod yr ieithoedd lleiafrifol sy'n fwy sefydledig yn wleidyddol (Cymraeg., Basgeg, Swedeg) yn cael eu hystyried yn fwy defnyddiol i'w dysgu na Sisileg a Ffriseeg gan ymatebwyr yn eu priod gyd-destunau. Fodd bynnag, pan ofynnwyd iddynt a yw'r iaith leiafrifol yn hanfodol ar gyfer y farchnad lafur, roedd ymatebwyr yn llai sicr ac roedd eu sylwadau yn fwy cymysg ym mhob cyd-destun ar wahân i'r ymatebwyr o Wlad y Basg. Gweler y graffiau isod



Mae'r iaith leiafrifol yn ddefnyddiol ar gyfer y swydd



Mae'r iaith leiafrifol yn hanfodol ar gyfer y swydd

Er nad oedd yr ymatebwyr o'r Ffindir yn ystyried bod dysgu'r iaith leiafrifol yn hanfodol ar gyfer eu swydd, roedd 40% o'r ymatebwyr o'r Ffindir yn cytuno â'r gosodiad ei bod yn bwysig dysgu'r iaith leiafrifol.

Athrawon a Hyfforddwyr Galwedigaethol

Yn y rhan fwyaf o achosion, cydnabu athrawon a hyfforddwyr galwedigaethol y byddai cwrs iaith leiafrifol wedi'i dargedu yn fuddiol i fewnfudwyr, yn enwedig ym maes gofal iechyd a chymdeithasol fel y nodir isod:

Rwy'n credu bod y gallu i ddeall yr iaith lafar (y dafodiaith neu'r iaith leiafrifol) yn bwysig iawn mewn gweithleoedd yn gyffredinol ac yn arbennig pan fydd hynny'n sicrhau buddiannau iechyd a buddiannau cymdeithasol er mwyn deall yr anghenion yn iawn.

Hyfforddwr galwedigaethol o Sisili

Mae'n bwysig medru siarad dwy iaith yn dda ym mhob rhan o gymdeithas, nid dim ond y sector gofal henoed. **Athro Basgeg**

Dylai pawb sy'n gweithio ym maes gofal iechyd allu siarad rhywfaint o Gymraeg

(ar lefel Mynediad o leiaf). **Athro Cymraeg**

Disgrifiwyd rhoi darpariaeth gyfartal i fewnfudwyr ar lefel anghenion yn ogystal â lefel hawliau. Hefyd, nododd athrawon fod angen rhaglenni hyfforddiant hyblyg y gellir eu haddasu sy'n ystyried cyfathrebu rhyngddiwylliannol a realiti'r gweithle.

Rheolwyr a Swyddogion Polisi Gofal Iechyd a Chymdeithasol

Nid oedd unrhyw gonsensws ymhlith rheolwyr a swyddogion polisi gofal iechyd a chymdeithasol ynglŷn ag union rôl yr iaith leiafrifol ym maes gofal iechyd a chymdeithasol. Mae'n bosibl bod hyn i'w briodoli'n rhannol i'r gwahaniaeth mewn polisïau ac arferion iaith rhwng cyd-destunau ond hefyd amrywiadau yng nghyd-destunau polisi ieithoedd lleol:

*Nid oes unrhyw bolisi o'r brig i lawr ac nid oes angen un. Dim ond yn y ganolfan alwadau, pan dderbynnir galwadau brys, y mae angen i chi ddeall Ffriseg. **Rheolwr gofal iechyd o Fryslân***

*Mae hwn yn bendant yn syniad da. Mae'r trigolion yn teimlo'n fwy diogel pan fyddant yn gwybod y byddant yn cael eu deall. **Rheolwr gofal iechyd Swedeg ei iaith***

Mewn rhai achosion, mae'n awgrymu mai barn bersonol a gafodd ei mynegi yn hytrach na phrofiad neu wybodaeth yn y maes. Serch hynny, roedd swyddogion polisi iaith yn credu, ar y cyfan, bod cyfyngiadau ar fentrau polisi o'r brig i lawr a bod mentrau lleol yn fwy llwyddiannus.

Canfyddiadau Allweddol

Dengys pob achos bolisiau ac arferion gwahanol ar waith. Er mai Cymru, y Ffindir a Gwlad y Basg sydd â'r polisiau mwyaf cynhwysfawr, dim ond Gwlad y Basg sydd â darpariaeth uniongyrchol ar gyfer mewnfudwyr yn yr iaith Fasgeg er ei bod yn ddarpariaeth wirfoddol.

- Yn achos Sisileg a Ffriseg, mae llai o bolisi ond mwy o arfer amlwg a phrosiectau gwirfoddol yn lle hynny.
- Nid yw'r un o'r achosion dan sylw yn mynd ati'n uniongyrchol i hyfforddi athrawon na darparu hyfforddiant iaith i fewnfudwyr mewn lleoliadau gofal iechyd a chymdeithasol.
- Yn achos y Fasgeg a'r Gymraeg, ceir polisiau ar integreiddio mewnfudwyr a dwyieithrwydd ond nid oes unrhyw strategaeth sy'n cysylltu integreiddio mewnfudwyr mewn cymdeithas ddwyieithog â gweithleoedd.
- Mae polisiau ar integreiddio yn ffafrio un iaith ar gyfer integreiddio yn hytrach nag ystyried anghenion mewnfudwyr i allu defnyddio'r ddwy iaith.
- Dim ond yn ddiweddar y lluniwyd polisi iaith ar gyfer Ffriseg ac mae'n ddiffygiol er bod Ffriseg yn cael ei defnyddio'n helaeth ym maes gofal iechyd.
- Yn achos Sisili nid oes unrhyw bolisi iaith uniongyrchol ar gyfer Sisileg nac unrhyw bolisiau lleol ar integreiddio mewnfudwyr er bod polisiau iaith ar waith sy'n ymwneud ag ieithoedd lleiafrifol eraill yn yr Eidal.
- Er mai dim ond polisiau lleol sydd i'w cael yn achos Sisileg, mae mentrau lleol wedi'u cynllunio i integreiddio mewnfudwyr gan roi ystyriaeth i'r Sisileg.
- Ceir mentrau lleol yng nghyd-destun y Fasgeg er mwyn hyfforddi gweithwyr mudol ym maes gofal iechyd i ddefnyddio'r iaith Fasgeg.
- Dengys enghraifft y Ffindir amcanion polisi i hyfforddi gweithwyr o gefndiroedd mudol drwy'r ddwy iaith genedlaethol, sef Swedeg a Ffinneg.



Cyfeiriadau yn y Dyfodol

Mae galw cyffredinol am fwy o waith ymchwil, polisi ac arfer ym maes dysgu ieithoedd lleiafrifol i fewnfudwyr er mwyn sicrhau bod gan weithwyr yn y sector gofal iechyd a chymdeithasol ledled Ewrop yr holl sgiliau sydd eu hangen arnynt. Gan ystyried y pethau cyffredin rhwng cyd-destunau'r partneriaid dan sylw a'r gwahaniaethau rhyngddynt, mae'r dadansoddiad o anghenion a gynhaliwyd ar gyfer prosiect COMBI wedi arwain at yr argymhellion canlynol. Mae angen gwneud y canlynol:

- codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd dwyieithrwydd yn y gweithle
- cydnabod bod sgiliau ieithyddol a gwybodaeth ddiwylliannol gweithwyr mudol yn eu gosod ar wahân i weithwyr eraill yn y sector gofal iechyd
- cydnabod bod y broses o integreiddio mewnfudwyr yn ieithyddol yn gallu digwydd mewn mwy nag un o ieithoedd y gymuned groeso
- cydnabod y gall y broses o integreiddio mewnfudwyr yn ieithyddol ganolbwyntio ar gynhwysiant economaidd yn ogystal â chynhwysiant cymdeithasol a diwylliannol
- creu llwybrau er mwyn i fewnfudwyr allu integreiddio yn arfer ieithyddol a diwylliannol y gweithle
- datblygu hyfforddiant er mwyn i athrawon a hyfforddwyr allu addysgu myfyrwyr yn y gweithlu a helpu i wella eu sgiliau a'u galluoedd ieithyddol
- datblygu adnoddau sy'n diwallu anghenion ieithyddol mewnfudwyr yn nwy iaith y gweithle
- treialu cyrsiau hyfforddi iaith i fewnfudwyr mewn gweithluoedd dwyieithog
- datblygu a lleadaenu dull addysgol a phecyn hyfforddi athrawon ar gyfer mewnfudwyr mewn cymunedau dwyieithog sy'n gweithredu fel model Ewropeaidd ar gyfer dysgu ieithoedd i fewnfudwyr mewn gweithluoedd dwyieithog

Llyfryddiaeth

Clark, M. M. (1983). Cultural context of medical practice. *Western Journal of Medicine*, 139(6), 806.

Cioffi, J. (2003). Communicating with culturally and linguistically diverse patients in an acute care setting: nurses' experiences. *International Journal of Nursing Studies* 40, tudalennau 299-306.

Eurostat. (2017). Migration and migrant population statistics. [Ar-lein] Eurostat: Statistics Explained. Adalwyd o [http://ec.europa.eu/eurostat/statistics-explained/index.php/Migration and migrant population statistics](http://ec.europa.eu/eurostat/statistics-explained/index.php/Migration_and_migrant_population_statistics)

Extra, G., Spotti, M. a Van Avermaet, P. 2009. Language Testing, Migration and Citizenship. *Journal of Ethnic and Migration Studies*, 36 (5), tudalennau 753-72

Bwrdd Addysg Cenedlaethol y Ffindir. (2010). Vocational Qualification in Social and Health Care, Practical Nurse. Adalwyd o http://www.oph.fi/download/140436_vocational_qualification_in_social_and_healthcare_2010.pdf

Gobierno Vasco (2008) Euskara 21. Plan de Acción para la Promoción del Euskera. Adalwyd o http://blog.euskara21.euskadi.net/?lang_pref=es

Higham, G. (2014). Teaching Welsh to ESOL Students: issues of intercultural citizenship. Yn Mallows, D. gol. British Council Innovation Series: Language and Integration. Llundain: British Council.

Ikuspegi (2016) Panorámica de la Inmigración. Población Extranjera en la CAPV 2015. VitoriaGasteiz.

Irvine, F. E., Roberts, G. W., Jones, P., Spencer, L. H., Baker, C. R., a Williams, C. (2006).

Communicative sensitivity in the bilingual healthcare setting: A qualitative study of language awareness. *Journal of Advanced Nursing*, 53(4), 422-434.

Istat. (2014). L'uso della lingua italiana, dei dialetti e di altre lingue in Italia. Adalwyd o http://www.istat.it/it/files/2014/10/Lingua-italiana-e-dialetti_PC.pdf

Liddicoat, A. J. (2013). Language-in-Education Policies: The Discursive Construction of Intercultural Relations. Prydain Fawr: Short Run Press Ltd.

Magnusdottir, H. I. L. D. U. R. (2005). Overcoming strangeness and communication barriers: a phenomenological study of becoming a foreign nurse. *International nursing review*, 52(4), 263-269.

Osakidetza (2013). Il Scheme to normalize the use of Basque in Osakidetza – 2013-2019.

Adalwyd

o

https://www.osakidetza.euskadi.eus/contenidos/informacion/publicaciones_euskera/es_osk/adjuntos/euskararenPlanaEn.pdf

Roberts, G. W., a Paden, L. (2000). Identifying the factors influencing minority language use in health care education settings: a European perspective. *Journal of Advance Nursing* 32(1), tudalennau 75-83

Wagoner, C. (2017). *Language Capacity Building and Strengthening in the Welsh Statutory Education and Health and Social Sectors*. PhD. Caerdydd

Llywodraeth Cymru. (2016a). *Cynllun Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru. (2016b). *Mwy na Geiriau: Fframwaith Strategol Olynol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Comisiynydd y Gymraeg (2014). *Fy Iaith, Fy Iechyd: Ymholiad Comisiynydd y Gymraeg i'r Gymraeg mewn Gofal Sylfaenol*. Adalwyd o: <http://http://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/Adroddiad%20Llawn%20Ymholiad%20Iechyd.pdf>

Sefydliad Iechyd y Byd. (2014). *Migration of health workers: the WHO code of practice and the global economic crisis*. Adalwyd o http://www.who.int/hrh/migration/14075_MigrationofHealth_Workers.pdf?ua=1

Am ragor o fanylion am brosiect COMBI, ewch i www.combiproject.eu

Sefydliad ariannu

EACEA, Partneriaethau Strategol CA2 Erasmus+ KA2 ar gyfer addysg i oedolion

Hyd y prosiect

01/09/2016 - 31/08/2019

combiproject.eu

 facebook.com/COMBIproject

 twitter.com/project_combi

Funding institution

EACEA, Erasmus+ KA2 Strategic Partnerships for adult education

Project duration

01/09/2016 - 31/08/2019



Co-funded by the
Erasmus+ Programme
of the European Union

The European Commission support for the production of this publication does not constitute an endorsement of the contents which reflects the views only of the authors, and the Commission cannot be held responsible for any use which may be made of the information contained therein.